


# Atodiad A

Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2023 i 2024, yn cyd-fynd ag uchelgais y strategaeth gweithlu

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Mai 2023

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/strategaeth-gweithlu/atodiad-cynllun-cyflawni-gweithlu-2 am y fersiwn diweddaraf.

Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2023 i 2024, yn cyd-fynd ag uchelgais y strategaeth gweithlu

Gweithlu ymroddgar, brwdfrydig ac iach

## Ein huchelgais erbyn 2030

Bydd aelodau'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi lle bynnag y maent yn gweithio.

**Camau gweithredu'r strategaeth gweithlu rhwng 2023 a 2026**

### 1. Cefnogi cyflogwyr i flaenoriaethu llesiant y gweithlu yn eu sefydliadau drwy weithredu ac adnewyddu'r Fframwaith iechyd a llesiant.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Parhau i hyrwyddo'r Fframwaith iechyd a llesiant ym maes gofal iechyd a lansio fersiwn ddigidol ochr yn ochr â'r adnoddau iechyd a llesiant presennol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Gwerthuso effaith y Fframwaith iechyd a llesiant ym maes gofal cymdeithasol a defnyddio'r hyn rydym yn ei ddysgu i'w adnewyddu. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cyflwyno gweithgareddau blwyddyn gyntaf y Gwasanaeth Cymorth i Gyflogwyr.
- Ymgynghori a gweithio gyda'r sector i adolygu'r codau ymarfer proffesiynol a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig a gwneud yn siŵr bod y rhain yn cyd-fynd â'r Fframwaith iechyd a llesiant o hyd.
- Datblygu a darparu ein hymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
  - y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

- y Cynllun Gweithredu LHDTC+
- y Cynllun Gweithredu HIV (Cymru)
- Mwy na geiriau. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

### 2. Gweithio at gydraddoldeb, gwobrwyo teg a chydnabyddiaeth drwy’r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ac ystyried telerau ac amodau gwaith cymdeithasol dan arweiniad CLlLC.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru ynghylch gwobrwyo a chydnabyddiaeth deg ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol.
- Defnyddio’r hyn rydym yn ei ddysgu wrth adolygu’r telerau a’r amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol i gefnogi’r broses.

### 3. Cefnogi llesiant y gweithlu drwy hyrwyddo a datblygu adnoddau a gwasanaethau llesiant, gan gynnwys Canopi a’r Cerdyn Gweithiwr Gofal.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Annog cydnabyddiaeth o’r gweithlu drwy Gerdyn Gweithiwr Gofal.
- Cefnogi’r gwaith o hyrwyddo Canopi, y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl cyffredinol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

### 4. Cynnal a datblygu rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, cymunedau a chynhadledd genedlaethol i rannu gwahanol ffyrdd o wella llesiant y gweithlu.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cynnal cynhadledd llesiant ar y cyd ag AaGIC. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cynnal cynhadledd gwaith cymdeithasol i rannu arferion da a dathlu'r proffesiwn.
- Darparu cyfleoedd i ymuno â rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid ym maes gofal cymdeithasol, a'u hadeiladu.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu amrywiaeth o gymunedau, gan gynnwys:
  - addysgwyr ymarfer
  - gofal plant preswyl
  - gofal a chymorth seiliedig ar leoedd
  - Unigolion Cyfrifol
  - Gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy
  - Aseswyr Budd Pennaf
  - gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso.

- Cynnal Seremoni'r Gwobrau 2023.

## 5. Cynnal gwaith ymchwil ac ymgysylltu, gan gynnwys arolwg annibynnol o weithwyr cofrestredig, a defnyddio'r hyn rydym yn ei ddysgu i wella ein dealltwriaeth o sut mae cefnogi llesiant y gweithlu.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Dadansoddi, cyhoeddi ac ymateb i ganlyniadau'r arolwg cyntaf o brofiad gweithwyr ar gyfer staff gofal cymdeithasol a chynllunio ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

- Rhannu â phartneriaid yr hyn rydym wedi'i ddysgu o'r ymchwil i'r hyn sy'n cymell gweithwyr i ddod yn weithwyr asiantaeth, gan egluro'r camau nesaf i ni a'n partneriaid. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cynnal adolygiad o'r canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso a'r canllawiau tair blynedd gyntaf mewn ymarfer.

Denu a recriwtio

# Ein huchelgais erbyn 2030

Bydd iechyd a gofal cymdeithasol wedi ennill ei blwyf fel brand cryf y gellir ei adnabod a'r sector o ddewis ar gyfer ein gweithlu yn y dyfodol.

**Camau gweithredu'r strategaeth gweithlu rhwng 2023 a 2026**

### 6. Darparu strwythurau ymgysylltu ar gyfer y sector er mwyn cefnogi dull cydlynol o ddenu gweithwyr i ofal cymdeithasol.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Parhau i ddarparu fforwm gyrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd sy'n hyrwyddo pob rôl ac yn estyn allan at bob rhan o'r gymuned a'r gweithlu. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cefnogi a chydlynu grŵp rhanddeiliaid ar gyfer denu a recriwtio cynrychiolwyr.

### 7. Datblygu a gweithredu cynlluniau i hyrwyddo gofal cymdeithasol yn barhaus fel gyrfa o ddewis.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Parhau i ddarparu ymgyrchoedd denu wedi'u targedu ar gyfer prinder sylweddol mewn grwpiau proffesiynol a galwedigaethol, grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a meysydd anodd eu recriwtio drwy ein rhaglen Gofalwn Cymru. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Datblygu dull 'ar waith bob amser' o ddenu a recriwtio drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r proffesiwn gwaith cymdeithasol fel dewis gyrfa yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol.
- Cynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu i ddenu pobl i ymgymryd â phrentisiaethau yn y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ar gyfer Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

### 8. Datblygu ffyrdd o ehangu mynediad at yrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys llwybrau i wirfoddolwyr.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Parhau i ddarparu'r rhaglen hyfforddiant cyn-cyflogaeth Cyflwyniad i ofal cymdeithasol, gan gefnogi pobl i gael swyddi ym maes gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhaglen loywi newydd.
- Ymgynghori ar newidiadau i'r gofynion mynediad wrth gofrestru ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, a'u cyflawni.

### 9. Gwella arferion recriwtio'r sector.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cefnogi'r gwaith o weithredu dull recriwtio dwyieithog a modern sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol. (Cynllun

Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

- Datblygu amrywiaeth o ganllawiau i gefnogi arferion cyflogwyr, fel:
  - recriwtio mwy diogel
  - gweithio hybrid
  - dulliau gweithio hyblyg
  - recriwtio ar sail gwerthoedd.

Modelau gweithlu di-dor

# Ein huchelgais erbyn 2030

Modelau gweithlu amlbroffesiwn ac aml-asiantaeth fydd y norm

**Camau gweithredu'r strategaeth gweithlu rhwng 2023 a 2026**

## 10. cyflwyno cynlluniau i gefnogi gweithio ar draws ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Gweithredu'r camau yn y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar y cyd. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cefnogi AaGIC i gynnig hyfforddiant nyrsio i staff cartrefi gofal. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cefnogi AaGIC i ddatblygu llwybrau at hyfforddiant ail-alluogi. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth i gefnogi rôl asesydd dibynadwy. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno agenda polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

## 11. Datblygu ffyrdd o gefnogi gwaith amlbroffesiynol.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu fframwaith aml-broffesiwn y rhaglen seilwaith cymunedol.

### 12. Nodi ac ymateb i’r ffordd mae gyrwyr polisi a modelau gwasanaeth newydd yn effeithio ar y gweithlu.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cefnogi ac ymgysylltu â byrddau gweithlu rhanbarthol.
- Cefnogi cynlluniau polisi’r llywodraeth, gan gynnwys dileu elw a chynyddu capasiti cymunedol.
- Cefnogi ystyriaethau'r model gwasanaeth cenedlaethol, fel masnachfraint gofal cartref.

Adeiladu gweithlu sy’n barod ar gyfer y byd digidol

## Ein huchelgais erbyn 2030

Bydd gallu digidol a thechnolegol y gweithlu wedi’i ddatblygu’n dda ac yn cael ei ddefnyddio’n eang i wneud yn siŵr ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib, er mwyn ein helpu i ddarparu’r gofal gorau posib i bobl.

**Camau gweithredu’r strategaeth gweithlu rhwng 2023 a 2026**

### 13. Gweithredu ffyrdd o wella llythrennedd digidol a hyder y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Parhau i flaenoriaethu’r gwaith o wella llythrennedd digidol a seilwaith digidol yn y gweithlu drwy grant Rhaglen Datblygu’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun i gefnogi arloesedd digidol ym maes gofal cymdeithasol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Archwilio sut y gallwn gynnal archwiliad o sgiliau digidol y gweithlu gofal cymdeithasol.

## 14. Creu cyfleoedd i ehangu mynediad at ddysgu a datblygu digidol.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Darparu llwyfan digidol er mwyn i’r gweithlu gofal cymdeithasol allu cael gafael ar ddysgu digidol yn hawdd. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Datblygu adnoddau ac asedau dysgu digidol ar gyfer y meysydd canlynol:
  - llwybr asesu cyflogwyr ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
  - ymarfer sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau
  - llesiant
  - datblygu/ail-lunio adnoddau Cymraeg
  - rhyddhau o’r ysbyty. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

## 15. Dysgu pa sgiliau digidol sydd eu hangen i roi modelau gwasanaeth digidol newydd ar waith.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cefnogi ac ymgysylltu â byrddau gweithlu rhanbarthol.
- Gweithio gyda Thechnoleg Iechyd Cymru i ddod o hyd i'r technolegau mwyaf addas i'w rhoi ar waith. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

Addysg a dysgu rhagorol

## Ein huchelgais erbyn 2030

Bydd y buddsoddiad mewn addysg a dysgu ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu'r sgiliau a'r gallu sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

**Camau gweithredu'r strategaeth gweithlu rhwng 2023 a 2026**

### 16. Gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod addysg yn diwallu anghenion y system iechyd a gofal cymdeithasol, a'i fod yn cynnwys rhaglenni a gynigir yn Gymraeg.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Darparu cefnogaeth i gyflogwyr a darparwyr dysgu ar gyfer rhoi cymwysterau galwedigaethol iechyd a gofal cymdeithasol ar waith yn barhaus. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Creu adnoddau i gefnogi hyfforddiant a phrofion sgiliau hanfodol yn y sector gofal cymdeithasol.

### 17. Parhau i fuddsoddi mewn cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi ym maes iechyd a gofal

## cymdeithasol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar werth.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Datblygu dyfarniadau ôl-gymhwyso ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, yn unol â blaenoriaethau'r sector a'r fframwaith ôl-gymhwyso y cytunwyd arno.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnodd e-ddysgu rheoli meddyginiaeth ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Parhau i ddarparu cyllid i gefnogi llefydd noddedig ar gyfer y radd gwaith cymdeithasol.
- Parhau i ddylanwadu ar werth bwrsariaethau i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

## 18. Ei gwneud yn haws i bobl ddechrau gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy gael gwared ar rwystrau a datblygu'r model dysgu seiliedig ar waith.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Ehangu mynediad at yrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu'r model dysgu seiliedig ar waith a llwybrau i gymwysterau proffesiynol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu adnoddau i gefnogi'r gweithlu i weithio gyda gofalwyr di-dâl.

## 19. Datblygu ffyrdd o wella sgiliau a gwybodaeth y gweithlu.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Gweithio ochr yn ochr ag AaGIC, darparwyr gofal cymdeithasol a chomisiynwyr i ddarparu hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol cynhwysfawr a pharhaus sy’n canolbwyntio ar LHDTC+ i'r holl staff. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth i bob gweithiwr cymdeithasol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Datblygu a gweithredu fframwaith sgiliau ar gyfer pobl sy’n gweithio ym maes ymchwil, arloesi a gwella gofal cymdeithasol.
- Creu tîm o hyfforddwyr i feithrin perthnasoedd, hyder a sgiliau mewn arloesi drwy hyfforddi timau lleol.
- Parhau i gefnogi’r gwaith o ddeall a defnyddio ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau ar draws meysydd gwasanaethau statudol ac anstatudol gofal cymdeithasol, gan gynnwys drwy adnoddau a hyfforddiant.
- Parhau i gynnig y rhaglen sgiliau cyfathrebu cydweithredol i awdurdodau lleol.
- Parhau i gefnogi gwaith y Rhwydwaith Dysgu a Gwella ar gyfer Ail-alluogi er mwyn rhannu arferion ac archwilio atebion i’r gweithlu.

Arweinyddiaeth ac Olyniaeth

## Ein huchelgais erbyn 2030

Bydd arweinwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol

**Camau gweithredu’r strategaeth gweithlu rhwng 2023 a 2026**

### 20. Creu rhaglenni ac adnoddau datblygu arweinyddiaeth hygyrch ar gyfer unigolion a sefydliadau, yn seiliedig ar egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Darparu a gwerthuso rhaglen arweinyddiaeth uwch gydweithredol a thosturiol ar gyfer awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Creu adnoddau ar dudalennau gofal cymdeithasol Gwella. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Parhau i hyrwyddo, cefnogi ac adolygu'r rhaglenni datblygu rheolwyr tîm a rheolwyr canol.
- Gweithio gydag AaGIC i hyrwyddo arweinyddiaeth dosturiol a'r egwyddorion ategol ar y cyd. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)

## 21. Datblygu llif rheoli talent ar gyfer rolau arwain.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Darparu a gwerthuso rhaglen beilot i ddarpar reolwyr.
- Ystyried yr opsiynau ar gyfer rhaglen datblygu rheolwyr tîm iechyd meddwl ar y cyd. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Archwilio'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi amrywiaeth mewn arweinyddiaeth gofal cymdeithasol.

## 22. Dod o hyd i ffyrdd o gefnogi gwasanaethau i ddatblygu a gwreiddio diwylliannau cadarnhaol.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Gweithio gydag AGC i archwilio sut mae symud ymlaen gyda chefnogaeth i wreiddio diwylliannau cadarnhaol.

Ffurf a chyflenwad y gweithlu

# Ein huchelgais erbyn 2030

Bydd gennym weithlu cynaliadwy gyda digon o bobl i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth.

**Camau gweithredu’r strategaeth gweithlu rhwng 2023 a 2026**

## Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cwblhau'r ymarfer cwmpasu wrth gynllunio'r gweithlu ac ymateb i’r argymhellion.
- Meithrin capasiti a gallu wrth gynllunio’r gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, wedi’i gefnogi gan ddull safonol, gan gynnwys ffyrdd o integreiddio cynllun y gweithlu. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Parhau i wella a dwyn ynghyd ddulliau o gasglu a chyhoeddi data am y gweithlu ar draws y sector gofal cymdeithasol.
- Datblygu canllawiau cynllunio gweithlu i adnabod a datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Cefnogi pobl gyda gwybodaeth am y gweithlu drwy gyfuno ein data am y gweithlu.
- Datblygu canllaw arfer da ar gyfer cyfweliadau ymadael. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Parhau i gefnogi’r gwaith o ddatblygu Fframwaith Cyflog a Datblygiad y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.

## 24. Datblygu ymatebion y gweithlu ar gyfer rhannau allweddol a phroffesiynol o'r sector.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Cefnogi'r ADSSC i ddatblygu memorandwm cydweithredu rhwng gweithwyr asiantaeth.
- Cefnogi rhaglen waith Trawsnewid Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y fframwaith ymarfer cenedlaethol.
- Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar i helpu i ddatblygu a hyrwyddo mentrau lleol sy'n gwella llesiant mewn cymunedau ledled Cymru.
- Edrych ar ddatblygu model i gefnogi lleoliadau gwirfoddoli mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Parhau i gefnogi gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr.
- Adolygu'r pecyn offer Sgiliau Iaith Gymraeg yn eich gweithlu: eu defnyddio'n effeithiol i wneud yn siŵr eich bod yn dilyn deddfwriaeth, adroddiadau, fframweithiau, a chymhellion perthnasol a chreu adnodd digidol i gefnogi'r defnydd ohono. (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu)
- Ystyried ac ymateb i oblygiadau'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i'r gweithlu.

## 25. Dysgu beth fyddai Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn ei olygu i'r gweithlu.

Dangos

**Cynllun cyflawni Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024**

- Ystyried ac ymateb i oblygiadau'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i'r gweithlu.